

Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd
Dydd Iau 6 Rhagfyr 2018 yng
Nghanolfan Ymwelwyr Llyn Brenig am 10:30

Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)
Gwen Butler (Is-gadeirydd)
Jo Hughes
Paul Frost
Duncan Barratt
Heather Fitzgerald
Hilary Davies
John Buckley
Tom Woodall
Hugh Crosswood
Laura Crawford
Kevin Slattery

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad Cefn Gwlad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)
Howard Sutcliffe (Rheolwr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Gwasanaeth Parcmon)
David Shiel (Uwch Swyddog Cefn Gwlad (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol))

Arsylwyr

Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Cyflwynwyd Ymddiheuriadau am Absenoldeb gan: -

Cyng Don Milne, Jim Gaffney, Cyng Martyn Holland, Max Grant, Iona Pierce, Kay Culhane, Chris Marshall, Caroline Turner, Victoria Currie, Sian Williams

Camau gweithredu a nodiadau o'r cyfarfod diwethaf.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Rhestrodd HA yr ymddiheuriadau a gafwyd. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiodd Jo Hughes eu bod yn gywir ac fe eiliodd Paul Frost. Roedd y camau gweithredu a godwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Materion yn codi

Pwynt gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Y Sefyllfa Bresennol
AP 7.1	HA i aildosbarthu'r rhestr o aelodau a gofyn am wybodaeth gefndir ar gyfer y rhai na ddarparwyd eisoes	Derbyniwyd gan DB
AP 8.1	VC i anfon dogfennau wedi'u diweddarau at HA.	Wedi'i gwblhau
AP 8.2	HA i ddsbarthu dogfennau wedi'u diweddarau at aelodau	Wedi'i gwblhau
AP 8.3	Aelodau Fforwm Mynediad Lleol i anfon sylwadau ar y	Wedi'i gwblhau
AP 8.4	dogfennau asesu at VC	Wedi'i gwblhau
AP 8.5	HA i atgoffa staff CSDd ynglŷn â Chist y Gymuned i weld a yw'n bosibl cael arian trwy grwpiau cerdded neu Grwpiau Cyfeillion HA i wahodd Laura Crawford i ymuno â'r Fforwm ac AWW i gysylltu i gwblhau'r cais.	LC wedi'i gwahodd
AP 8.6	HA i gysylltu gyda PF i wahodd ei unigolyn cyswllt ym Mhenmaenmawr i gyfarfod yn y dyfodol.	HA a SW i gyfarfod yr unigolyn cyswllt yn 2019

Diweddariadau RoWIP – ni all HD ddod o hyd i'r adroddiadau RoWIP blynyddol ar wefan Conwy. Diwedodd JB y bu camgymeriad wrth drosglwyddo'r ffeiliau i'r wefan newydd, ac roeddent ar goll. A ellir gofyn i Victoria ddarparu'r dogfennau?

AP 9.1	A all Victoria Currie ddarparu'r Adroddiadau RoWIP i'r Fforwm Mynediad Lleol?	Gofynnwyd.
--------	---	------------

Cynlluniau Gwaith ar gyfer 2018-19

Cyfrannu Giât – gofynnodd JB i Sian roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect i'r Fforwm gan ei fod wedi'i drafod ers bron i 2 flynedd. Roedd PF yn credu y dylai derbyn cyllid fod yn syml oherwydd bod y cynllun meinciau eisoes wedi'i sefydlu. Credwyd y byddai'r cyllid yn mynd i adran wahanol felly efallai y byddai angen sefydlu system newydd.

AP 9.2	A allai Sian Williams roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun Cyfrannu Giât yng Nghonwy?	Gofynnwyd
--------	---	-----------

Ffyrdd Coll yng Nghonwy **– Cyflwyniad gan Duncan Barrett**

Anogwyd Duncan gan y paragraff a ganlyn yn yr Asesiadau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft gan CBS Conwy i ymchwilio i Ffyrdd Coll a chreu'r cyflwyniad hwn. Mae'r cyflwyniad ar gael i aelodau yn y Blwch CEDLAF.

“Mae'n bosibl bod llawer mwy o lwybrau y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio nad oes gennym ni gofnod ohonynt ac, ar gais, gellir ymchwilio i'r rhain drwy'r broses Gorchymyn Newid. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wrthi'n ymdrin ag un Gorchymyn Newid Map Swyddogol ar hyn o bryd, ac mae un arall yn aros i gael ei brosesu. Mae hyn yn rhoi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn sefyllfa gadarn ynghylch dilysrwydd a chywirdeb y Map Swyddogol.”

Mae ymchwil Duncan yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer o anghysondebau ar y Map OS lle mae hawliau tramwy yn newid statws ar ffiniau cymunedau a siroedd. Mae llawer o anghysondebau eraill yn bodoli ar wahân i'r rhain, ond mae'r rhai ar y ffiniau sefyll allan fel enghreifftiau da. Canolbwyntiodd Duncan ar ymchwilio i'r rhwydwaith o lwybrau a thraciau sy'n bodoli yn ei ardal leol – Betws yn Rhos – ac arddangosodd detholiad o fap 1888, a grëwyd o arolwg 1875, sy'n dangos y terfyn cymunedol a chilffordd. Ar fap 1949 (cyn y dosbarthiad) mae'r gilffordd yn troi yn drac a dangosir y terfyn. Mewn ail enghraifft o lwybr troed ger Glyn Bach, mae'r llwybr troed ar y map swyddogol yn cario ymlaen â'r amlinell, ac mae'r map swyddogol rŵan yn dangos y llwybr troed yn mynd i lawr arglawdd serth ac mae bellach yn amhosibl ei ddefnyddio ac yn anghywir.

Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyfredol CBS Conwy (tudalen 56) yn honni bod 370 o ffyrdd coll posibl wedi'u nodi gan CBSC. Mae Duncan am gael gweld yr ymchwil i nodi'r 370 o ffyrdd coll, ond nid oedd wedi cael ateb gan CBSC.

Cafwyd trafodaeth ar ôl y cyflwyniad.

AW: O'r wybodaeth am ffiniau Clwyd, mae'n amlwg bod yr ardal yn un gweithgar yn niwedd yr 1800au a bod ffermwyr yn adeiladu isadeiledd i gludo calch i'r caeau. Mae'r ddwy enghraifft a roddir yn rhannol dan destun dyfarniad man caeedig. Rhoddodd AW wybod hefyd ei fod wedi treulio dau ddiwrnod ar gwrs gyda JH yn swyddfa cofnodion Hawarden gyda John Trevalyn o Gymdeithas y Cerddwyr. Gellir sicrhau bod llyfr AW o'r cwrs hwnnw ar gael i'r aelodau ei weld. Gall AW hefyd wneud mapiau o lwybrau ceffylau yn CSDd, nad ydynt yn arwain i unrhyw le, ar gael i aelodau.

Mae JB a HD hefyd wedi edrych ar hyn ac wedi bod ar yr un cwrs ag AW a JH. Nodwyd ei bod yn anodd dod o hyd i dystiolaeth yn erbyn y map 1880 bod llwybrau ar gael i bawb, ac nid i'r tiffeddiannwr yn unig. Mae JB a HD wedi gweithio ar y Gorchymyn Addasu Map Swyddogol sydd ar y gweill gyda CBS Conwy, sydd ym Mhenmaenmawr. Maent wedi gallu rhoi tystiolaeth o'r 12 o bobl sy'n defnyddio'r llwybr am 20 mlynedd. Dylid gwneud penderfyniad ym mis Ionawr, ac os ddim, bydd yn mynd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ychwanegwyd, fel rhan o'r dystiolaeth bod angen enwau a chyfeiriadau tystion.

Yna cafwyd trafodaeth ynglŷn ag a yw'r dyddiad terfyn 2026 ar gyfer Ffyrdd Coll yng Nghymru yn dal i fodoli.

Nododd DB bod Max Grant wedi rhoi cyflwyniad i Fforwm Mynediad Lleol Eryri ac mae papur gwyrdd ynglŷn â'r mater.

Ychwanegodd AW y gallai gymryd 5 mlynedd i'w ddiwyddu drwy'r Senedd. Os nad yw'n cael ei ollwng bydd llawer o waith i'w wneud mewn 4 blynedd i fodloni'r dyddiad terfyn.

Ychwanegodd KS mai 2026 yw'r dyddiad terfyn ar gyfer ceisiadau a byddai'n bosibl i CBS Conwy gyflwyno ceisiadau ar gyfer yr holl ffyrdd coll a ffurfio ciw. Nid yw'n ddyddiad terfyn i benderfynu a ddylid eu mabwysiadu ai peidio.

Dywedodd AW pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno nad yw'n bosibl newid statws llwybr.

Dywedodd HD, sydd â phrofiad o gyflwyno ceisiadau, bod llawer o waith wedi'i wneud arno a'i fod yn cymryd 6 mis i wneud rhywbeth sy'n ymddangos yn rhywbeth amlwg iawn.

Dywedodd AW y gall pobl wneud cais am unrhyw hawl tramwy yn seiliedig ar 20 mlynedd o ddefnydd, dim ots am y dyddiad terfyn 2026. Dadleuodd JB yn erbyn hyn ac roedd wedi clywed yn groes i'r hyn yr oedd AW yn ei honni.

Ychwanegodd DB bod CBS Conwy yn cydnabod, yn seiliedig ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwethaf y gallant weithio drwy 3 cais y flwyddyn. Yn seiliedig ar DB yn darllen yr holl Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yng Ngogledd Cymru, mae dros 2000 o ffyrdd coll yng Ngogledd Cymru. Ychwanegodd hefyd bod tudalen Facebook yn cynnal tiwtorial ar roi gwybodaeth sylfaenol at ei gilydd – DB i ddsbarthu manylion.

Roedd PF yn meddwl bod y grŵp yn edrych arno o'r safbwynt anghywir. Mae Awdurdodau Lleol wrthi'n rheoli'r dirywiad ac mae'n rhaid iddynt rŵan gyfiawnhau gwneud beth mae pobl wedi bod yn fodlon iddynt ei wneud yn y gorffennol. Mae PF yn credu ei fod yn ei hanfod yn seiliedig ar pa mor bwysig yw hyn, gan y gall grwpiau ac unigolion fynd i lawer o ymdrech ar gyfer llwybr a ddefnyddir ddwywaith y flwyddyn. Mae angen creu sail blaenoriaeth oherwydd does dim pwrpas sefydlu blaenoriaethau os nad oes unrhyw linyn mesur iddynt.

Astudiaeth Gwerthusiad Ymwelwyr ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

- Diweddariad gan David Shiel

Rhoddodd David gefndir i'r gwaith hwn. Roedd teimlad a pheth tystiolaeth i ddangos bod ymwelwyr i safleoedd allweddol yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynyddu yn helaeth. Mae hyn yn broblem ledled y wlad ac nid yn yr ardal hon yn unig. Mae tystiolaeth allweddol yn dangos bod niferoedd

ymwelwyr blynyddol wedi cynyddu i dros 300,000 yn Loggerheads a Moel Famau. Bu cynnydd yn Ninas Bran ac yn arbennig yn Rhaeadr y Bedol.

Does dim penwythnosau tawel ym Moel Famau bellach. Mae'r meysydd parcio yn llawn ac mae pobl yn parcio ar y ffordd. Mae'n effeithio ar bobl leol ac yn dirywio'r profiad i ymwelwyr.

Nid yw'r effaith wedi'i gyfyngu i'r traffig. Mae sbwriel yn broblem arall, gydag 8 tunnell fetrig o faw ci yn cael ei finio yn Loggerheads bob blwyddyn. Ym Moel Famau, mae 4 tunnell fetrig o sbwriel wedi'i fagio, a 4 tunnell fetrig o sbwriel heb ei fagio i'w waredu bob blwyddyn. Mae Moel Famau hefyd wedi profi cyfres o ymosodiadau cŵn ar anifeiliaid, gyda bron i 20 o ddefaid wedi'u lladd y llynedd. Mae'r Tîm Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi bod yn ymgyrchu i ymwelwyr gadw cŵn ar dennyn ac eleni rydym yn ymwybodol o farwolaeth dwy ddafad. Mae erydiad yn fater arall ac mae angen gwneud llawer o waith ar lwybrau i wneud yn siŵr y gall y dirwedd sensitif ymdopi gyda'r niferoedd cynyddol o bobl.

Arysgrifennwyd Rhaeadr y Bedol fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd yn 2009, sydd wedi cael effaith ar nifer ymwelwyr yno hefyd. Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a CRT wedi gwella mynediad i'r afon ar gyfer chwaraeon padlo wrth i'r niferoedd gynyddu, ac mae gennym hefyd well mynediad o'r maes parcio. Mae Rhaeadr y Bedol yn ganolbwynt ar gyfer mynediad i'r afon gyda gweithredwyr masnachol yn defnyddio'r maes parcio a'r safle i gael mynediad i'r afon. Amcangyfrifir bod gwerth mynediad awyr agored i Ogledd Cymru yn £150 miliwn.

Awgrymodd David bod angen i ni edrych ar sut i hyrwyddo ein hardaloedd tawel ac ystyried a ddylem hyrwyddo'r ardaloedd hyn i bobl ymweld â nhw er mwyn diogelu rhai o'n hardaloedd mwyaf sensitif. Mae llawer o'n hoff safleoedd yn hardd ac yn bwysig a sensitif. Mae glaswelltir calchfaen Loggerheads yn enghraifft o hyn ac mae'r glaswelltir ar ben y cerrig yn methu fel safle o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd yr effaith ar ymwelwyr.

Mae hefyd problemau pan mae'n bwrw eira ac mae cymunedau lleol wedi'u heffeithio oherwydd bod cymaint o bobl yn ymweld â Loggerheads ac yn mynd i gaeau preifat, yn gadael sbwriel, yn achosi anrhefn a phwysau ar staff yn ogystal â'r anghyfleustra i bobl leol a ffermwyr.

Fel rhan o'r astudiaeth hon rydym eisiau cofnodi'r buddion a hefyd edrych ar effaith amgylcheddol a chymdeithasol y safleoedd hyn. Mae rhai cwestiynau yn cynnwys: Sut allwn ni wneud y gorau o'r buddion? Faint sy'n cael ei wario yn y trefi? Beth yw gwerth y safleoedd hyn i'r economi leol?

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019. Mae'r gwaith wedi cynnwys arolygon ar lawr gwlad ym mis Awst a Hydref, holiadur ar-lein, defnydd data cyfredol a data busnes i ganfod gwerth safleoedd i'r busnesau sy'n eu defnyddio. Cynhaliwyd grwpiau budd-ddeiliad i gofnodi problemau pobl sy'n byw gerllaw. Nid yw rhai pethau y credwyd oedd yn broblem yn bwysig i bobl sy'n byw ger y safleoedd mewn gwirionedd.

Cwestiynau a sylwadau i David.

Gofynnodd HD gan fod problem parcio ceir, a yw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gwneud unrhyw beth ynghylch cludiant cyhoeddus.

Defnyddiwyd bysiau ym Moel Famau yn y gorffennol ond roedd yn ychwanegu bysiau gwag at sefyllfa sydd eisoes yn brysur. Nid yw pobl yn hoffi neidio ar fws gyda phicnic, y ci, y teulu ayyb.

Ond, mae lifft Llangollen yn gweithio yn dda pan mae wedi'i ariannu. Roedd gweithio gyda thacsis 9/12 sedd yn hytrach na bysiau, gan fynd ar deithiau byr rhwng y dref a mannau o ddidordeb ac osgoi mannau

prysur yn llwyddiant. Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn bwriadu cynnal y gwasanaeth eto yn Safle Treftadaeth y Byd fel rhan o'r prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri newydd.

Awgrymodd HD y dylid codi prisiau parcio i atal ymwelwyr.

Yn anffodus mae hyn yn gorfodi pobl i barcio ar y ffordd. Yn Loggerheads mae cost parcio wedi ei leihau i atal pobl rhag parcio ar yr A494.

Dywedodd KS o ran cludiant cyhoeddus, bod angen meddylfryd gwahanol. Mae'n rhaid i'r cyhoedd sylweddoli bod angen i newid ddigwydd.

Awgrymwyd y gellir cau ardaloedd sensitif er mwyn eu diogelu. Gall helpu i osod arwyddion sympatheg sy'n esbonio pam fod angen y gwaith. Dywedodd DS bod ei dîm yn bwriadu cau rhai ardaloedd ar ben clogwyni Loggerheads gyda ffensys i weld pa mor gyflym y bydd yn cael ei adfer. Dywedodd JB bod y safleoedd yn dioddef oherwydd eu llwyddiant.

Dywedodd DS bod cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael effaith ar niferoedd ymwelwyr.

Gofynnodd PF a fyddai'n bosibl ychwanegu'r adroddiad i'r Blwch ac ychwanegodd y gall fod yn syniad i dargedu pobl sydd ddim yn heini ac iach ac osgoi'r syniad o fynd i'r lle mwyaf eithafol. Hyrwyddo mynediad carreg drws / lleol a hygyrch. Darbwyllo pobl i fynd yno gyntaf ac yna symud ymlaen i'r llwybrau mwy eithafol.

Dywedodd DS bod y prosiect Natur ar gyfer Iechyd cyfredol yn ceisio gwneud yn union hynny trwy ymgysylltu â phobl mewn trefi ac ar ystadau tai i fynd allan a chadw'n heini. Yn Llangollen mae grŵp bychan yn cerdded ar hyd y gamlas ac wedi gweld cynnydd mewn ychydig wythnosau.

Strategaeth Hiraethog a Chronfa Fferm Wynt Clocaenog

- Cyflwyniad gan Eirian Jones

Eirian yw cydlynnydd Strategaeth Hiraethog. Mae'n strategaeth gynhwysfawr a gellir ei gweld yma: <https://cadwynclwyd.co.uk/wp-content/uploads/A-development-strategy-for-the-Hiraethog-.pdf>

Cyflwynodd Menter Iaith Conwy dendr i ddarparu'r strategaeth. Mae MI Conwy yn ceisio lleihau dibyniaeth ar grantiau. Mae Eirian yn gweithio 2 ddiwrnod yr wythnos ar y Strategaeth ac mae hi 2 flynedd i mewn i gontract 3 blynedd.

Sefydlwyd grŵp llywio sy'n arwain gwaith Eirian. Mae 10 aelod gan gynnwys 3 aelod cyngor o CBSC a CSDd.

Mae cyd-destun y strategaeth wedi'i nodi yn ôl wardiau etholiadol. Gweler y map gyda chymunedau wedi'u hamlinellu mewn glas, sy'n dangos pa gymunedau sydd yn y strategaeth. Bydd Eirian yn dosbarthu'r map.

Nod y strategaeth yw cynnal a datblygu Hiraethog fel lle y mae pobl eisiau byw, gweithio a chwarae, ac yn gallu gwneud hynny gan ddefnyddio a chynnal amgylchedd, tirwedd, treftadaeth a diwylliant naturiol unigryw yr ardal. Mae pum prif amcan wedi'u nodi yn y strategaeth, sydd wedi'u cysylltu â chyflawni nod y prosiect.

Mae prosiectau cyfredol yn cynnwys helpu cymunedau lleol, helpu gyda datblygiad prosiectau os ydynt yn cysylltu ag amcanion strategaeth a helpu i ffurfio grwpiau newydd.

Mae enghreifftiau prosiect yn cynnwys darparu man cyfarfod cymunedol newydd yn Llanfihangel ac yng Nghlawdd Newydd mae prosiect i glirio pwll a chynnwys y gymuned wrth ddatblygu safle ar y gweill.

Mae EW yn edrych ar brosiectau ar gyfer Hiraethog gyfan ac yn ddiweddar cynhaliwyd dau gyfarfod ar gyfer y cynghorau cymuned. Mae llawer o bobl leol yn cymryd rhan mewn sioeau gwledig; ond mae pryderon ynghylch gofynion iechyd a diogelwch yn cynyddu ac yn atal pobl rhag cymryd rhan. Mae prosiect sioeau gwledig Hiraethog wedi'i sefydlu i ariannu rhywun gydag arbenigedd iechyd a diogelwch

i helpu grwpiau a gwirfoddolwyr i gynnal sioe. Mae'r Sioeau Amaethyddol yn bwysig iawn i ardal Hiraethog a gobeithir y bydd y prosiect hwn yn lliniaru unrhyw bryderon ynglŷn â bod yn rhan o drefnu'r sioeau.

Mae EW yn fodlon cyfarfod a thrafod syniadau prosiect yn unigol.

Rhoddodd EW grynodedb o'r ddwy gronfa fferm wynt gyfredol.

Fferm Wynt Clocaenog – mae'r gronfa hon yn gysylltiedig ag indecs ac mae'r terfyn daearyddol i'w ddiffinio.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 17 Rhagfyr ac mae ar ffurf arolwg ar-lein ar wefan Innogy <https://iam.innogy.com/en/ueber-innogy/innogy-innovation-technik/erneuerbare-energien/onshore/innogy-onshore-bauprojekte/clocaenog-forest-onshore-wind-farm>

Dylai'r gronfa fod ar gael erbyn diwedd 2019. Bydd y tendr am rywun i weinyddu'r gronfa yn cael ei gyflwyno yn ystod haf 2019.

Fferm Wynt Brenig – Mae arolwg ar wefan Cadwyn Clwyd ar gyfer y gronfa hon. Gellir ei weld yma <https://cadwynclwyd.co.uk/brenig-wind-limited-community-benefit-fund/> Mae'r gronfa hon yn ddadleuol gan fod yr ardal gyfan yn Sir Ddinbych a chymunedau Conwy heb eu cynnwys, ond mae loriau yn mynd drwy gymunedau Conwy ac maent yn cael eu heffeithio. Dylai'r gronfa hon fod ar gael yn nechrau 2019.

Dywedodd Kevin Slattery ei fod wedi defnyddio Gwynt y Môr ar gyfer grŵp hanes lleol a gofynnodd a all y cynghorau ddefnyddio'r ddwy gronfa arall. Ni allant, ac felly bydd ar gyfer grwpiau cymunedol nid er elw yn unig.

Holodd Duncan Barrett ynglŷn â rhannu cyllid rhwng prosiectau cymunedol ac economaidd. Ni ddiffiniwyd unrhyw raniad eto.

Rhoddodd Paul Frost sylwadau ar yr arolwg. Mae edrych ar y strategaeth yn helpu i wneud gwell synnwyr o'r arolwg.

Diweddariadau Swyddog Awdurdod Lleol

Rhoddodd Howard Sutcliffe drosolwg o'r ceisiadau cyllid EnRaw y mae'r swyddogion Cefn Gwlad a Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi bod ynghlwm â nhw. Mae'r cyntaf yn seiliedig ar fynediad arfordirol a bioamrywiaeth ac mae'n ymdrin ag arfordir Sir Ddinbych a Sir y Fflint a Chonwy. Mae'r ail gynllun yn seiliedig ar y Berwyn, Hiraethog a Bryniau Clwyd. Mae Cadwyn Clwyd yn arwain ar y cais hwn.

Rydym hefyd yn arwain ar brosiect o'r enw Nature for Health, sy'n cynnwys gweithio gydag adran dai Sir Ddinbych.

Rhoddodd Adrian Walls gyflwyniad yn manylu ar ei asesiad o'r rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd, nid yw'n gallu cadw at amserlen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan fod ganddo dîm llawer llai yn gweithio arno, o gymharu â phan grëwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy y tro diwethaf. Ar hyn o bryd mae 3.5 o bobl yn ei adran a does dim arian i ymgynghorwyr wneud y gwaith. Mae cyflwyniad Adrian yn dangos sut y mae'r rhwydwaith wedi'i lunio yn ôl cymuned a lle mae'r ddarpariaeth mwyaf a lleiaf. Mae AW yn credu y byddai colli llwybrau o ardaloedd dwysedd isel yn cael effaith fwy na cholli llwybrau o ardal fel Corwen sydd â nifer uwch o lwybrau. Bydd AW yn gwrthwynebu colli hawliau tramwy mewn cymunedau gyda dwysedd llwybrau isel. Mae hefyd eisiau cynyddu amrywiaeth y llwybrau a defnyddiodd Llandrillo fel enghraifft, sydd â chymysgedd dda o fathau o hawliau tramwy. Yn ddelfrydol hoffai AW weld yr un amrywiaeth ym mhob cymuned a gallu gwyrto

gwariant i ganolbwyntio ar wella amrywiaeth mewn cymunedau i roi cyfle i fwy o grwpiau defnyddwyr gael llwybrau hamdden yn eu cymunedau.

Materion eraill

Mynegodd Tom Woodall ei fod yn siomedig na chyflwynwyd unrhyw adroddiadau gan CBSC i'r cyfarfod ac nad oedd swyddogion yn bresennol. Cefnogodd aelodau eraill y Fforwm Mynediad Lleol sylwadau TW a gofynnwyd am gael nodi'r sylwadau ac i CBSC ymateb.

Dyddiad cyfarfodydd sydd i ddod:

Ddydd Iau 7 Mawrth 2019

Dydd Iau 6 Mehefin 2019

Ddydd Iau 5 Medi 2019

Dydd Iau 5 Rhagfyr 2019

DRAFT